Hydref 2023

# Archwilio Disgwyliadau Cynulleidfaoedd o Wasanaethau Llinol ac Ar-Alw

**Ipsos ar ran Ofcom**

**Rhybudd: Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys iaith dramgwyddus iawn ac yn trafod cynnwys a allai achosi tramgwydd.**

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol ........................................................................................................ 4**

# Crynodeb gweithredol

Mae Ofcom wedi comisiynu Ipsos i gynnal ymchwil i'w helpu i ddeall beth yw disgwyliadau cynulleidfaoedd o wasanaethau teledu llinol a gwasanaethau fideo-ar-alw.[1] Bwriad hyn oedd diweddaru ac adeiladu ar yr ymchwil yr oedd Ipsos wedi'i chynnal ar gyfer Ofcom yn 2019/20. Roedd yr ymchwil hon yn edrych ar sut roedd disgwyliadau cynulleidfaoedd o gynnwys clyweledol yn esblygu o ran amddiffyn: plant rhag cynnwys sy'n anaddas iddyn nhw; a chynulleidfaoedd yn gyffredinol rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol ac yn dramgwyddus.[2] Gan adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn y dirwedd cyfryngau, mae'r ymchwil newydd hon yn rhoi mwy o bwyslais ar gynnwys fideo ar-alw o'i gymharu â'r astudiaeth flaenorol.

Roedd yr ymchwil ddiweddaraf hon yn ansoddol ei natur, ac yn cynnwys cyfres o weithdai ymgynghori aml-gam ar-lein gydag aelodau o'r cyhoedd ar draws y DU, yn ogystal â chyfweliadau manwl a gynhaliwyd gyda phobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed. Cynhaliwyd gwaith maes y prif gam rhwng 12 Ionawr a 9 Chwefror 2023.

**Roedd disgwyliadau tebyg o wasanaethau teledu llinol a gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr ("BVoD), ond roeddent yn wahanol ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ("SVoD").**

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod eu harferion gwylio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gan fod cymaint o sianeli, gwasanaethau a chynnwys ar gael erbyn hyn, dywedodd y cyfranogwyr fod hyn wedi newid y ffordd maen nhw'n dod o hyd i gynnwys ac yn gwylio cynnwys, ac roedd llawer ohonynt wedi tynnu sylw at y modd y mae gwasanaethau fideo ar-alw wedi dod yn rhan annatod o'u harferion gwylio.

Mae teledu llinol yn dal i fod yn rhan o arferion gwylio llawer o gyfranogwyr, er bod llawer wedi dweud ar y dechrau nad oeddent yn gwylio llawer o gynnwys arno. Fodd bynnag, ar ôl ystyried ymhellach, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cydnabod y rôl mae gwylio llinol yn dal i'w chwarae yn eu harferion gwylio, yn enwedig o ran rhaglenni byw o ddigwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon.

Yn gyffredinol, roedd gwasanaethau BVoD yn cael eu hystyried fel estyniad i'w sianeli llinol cysylltiedig, a'u bod yn cynnig cynnwys tebyg. Hefyd, dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn dal i fyny â rhaglenni maen nhw wedi'u colli. Er bod rhywfaint o gydnabyddiaeth bod BVoDs yn cynnal cynnwys y tu hwnt i'r hyn a oedd wedi'i ddarlledu ar sianeli llinol, roedd gwasanaethau SVoD yn cael eu hystyried yn wahanol i wasanaethau teledu llinol a BVoDs, ac yn fwy tebygol o gynnig cynnwys mwy 'beiddgar'.

[1] Teledu llinol yw teledu sy'n cael ei wylio'n fyw wrth iddo gael ei ddarlledu, gydag amseroedd penodol ar gyfer pob rhaglen. Mae enghreifftiau o sianeli teledu llinol yn cynnwys y BBC, ITV, Channel 4, ac S4C; mae gwasanaethau fideo ar-alw yn cynnwys gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoDs) a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoDs). Mae BVoDs yn wasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr sianeli teledu llinol. Mae enghreifftiau o wasanaethau BVoD yn cynnwys BBC iPlayer, My5 ac ITVX. Mae gwasanaethau o'r fath yn debygol o gynnwys rhaglenni sydd eisoes wedi'u darlledu ar wasanaethau llinol, a rhaglenni sydd heb gael eu darlledu eto neu sydd wedi'u creu ar gyfer y gwasanaeth BVoD yn unig. Mae SVoDs yn wasanaethau fideo ar-alw y mae angen tanysgrifio iddynt. Mae enghreifftiau o SVoDs yn cynnwys Netflix, Disney+, ac Amazon Prime Video. At ddibenion yr adroddiad hwn, ni chafodd agweddau at wasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion (fel Amazon Freevee) eu harchwilio'n benodol.

[2] Mae ymchwil 2019/2020 ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/audience-expectations-in-a-digital-world

**Mae'r cyd-destun lle mae gwylwyr yn cyrchu cynnwys wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth benderfynu ar beth sy'n dderbyniol, a gwelwyd bod hyn yn amrywio rhwng teledu llinol a llwyfannau fideo ar-alw.**

I ddechrau, dywedodd llawer o'r cyfranogwyr nad oedd dim ar y teledu a oedd yn peri niwed neu dramgwydd iddynt, a'u bod yn teimlo ei bod yn llawer iawn haws disgrifio sut gallai cynnwys fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus i bobl eraill. Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen, nododd y cyfranogwyr y categorïau o gynnwys a allai beri pryder iddynt, gan gynnwys rhaglenni sy'n cynnwys: rhegi, casineb at fenywod; cabledd; oedraniaeth; homoffobia; gwahaniaethu ar sail crefydd; trais rhywiol; hiliaeth; a phedoffilia. Roeddent yn pwysleisio bod derbynioldeb y cynnwys hwn yn dibynnu ar y cyd-destun y caiff ei ddangos ynddo.

O ran gwasanaethau fideo ar-alw a gwasanaethau theledu llinol, mae derbynioldeb cynnwys yn amrywio ar sail tri ffactor:

1. **Cyd-destun:** Roedd hyn yn cynnwys y gwasanaeth sy'n cael ei wylio, sut mae gwylwyr yn cael gafael arno, a beth sydd ar waith i rybuddio gwylwyr neu atal cynulleidfaoedd neu blant agored i niwed rhag ei wylio.

2. **Cynnwys:** Roedd hyn yn cynnwys y geiriau, y delweddau, y synau a'r llinellau stori.

3. **Bwriad:** Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth y cyfranogwyr o fwriadau canfyddedig creu'r cynnwys, a pham mae darparwr wedi penderfynu ei ddangos.

Roedd y ffactorau cyd-destunol a ystyriwyd gan gyfranogwyr wrth farnu a oedd cynnwys yn dderbyniol ar gyfer teledu llinol ai peidio, yn tueddu i fod yn debyg i'r ffactorau a ystyriwyd ganddynt mewn ymchwil flaenorol. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys: pryd roedd cynnwys yn cael ei amserlennu ar sianeli llinol, sef rhywbeth a oedd yn dal i gael ei ystyried yn bwysig; a bod digon o wybodaeth am gynnwys, neu rybuddion ar ddechrau rhaglenni llinol ar gael i gynulleidfaoedd fel y gallent wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a fyddent am wylio rhaglen ai peidio. Roedd disgwyliadau'r sianel a theitlau'r rhaglenni hefyd yn chwarae rhan.

Mae llawer o'r themâu a'r materion a godwyd yn Ymchwil 2019 wedi dod yn fwy amlwg wrth i'r cyhoedd ddod yn fwy cyfarwydd â defnyddio gwasanaethau BVoD a SVoD. Er enghraifft, y pwys roedd y cyfranogwyr yn ei roi ar y ffordd mae gwylwyr yn mynd ati i ddewis cynnwys ar lwyfannau fideo ar-alw. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn y gallai'r gwasanaethau hyn wthio'r ffiniau ymhellach o ran dangos cynnwys mwy beiddgar, er y gallai'r SVoDs wneud hynny'n fwy. Y farn oedd bod cynulleidfaoedd sy'n gwneud dewisiadau gweithredol ac yn dewis drostynt eu hunain beth i'w wylio ar lwyfannau fideo ar-alw yn cynnig ei ddulliau diogelu ei hun i'r gwylwyr hynny. Roedd hyn yn ychwanegol at y ffaith bod gwylwyr yn cael mwy o gyfle i ddefnyddio gwybodaeth am y cynnwys, rhybuddion a rhagflasau nag ar deledu llinol.

Fodd bynnag, roedd rhai cyfyngiadau ar dderbynioldeb gwahanol fathau o gynnwys, hyd yn oed ar wasanaethau SVoD. Daeth cynnwys yn llai derbyniol ar draws llwyfannau os oedd cyfranogwyr o'r farn ei fod yn gwneud hwyl am ben pynciau difrifol neu sensitif, neu'n targedu grwpiau a oedd yn cael eu hystyried yn agored i niwed. I ychydig gyfranogwyr, dyma pryd roeddent o'r farn bod y cynnwys wedi troi'n annerbyniol ac yn anaddas i'w ddangos ar unrhyw wasanaeth.

Roedd deunydd archif a ddangoswyd i'r cyfranogwyr yn hollti barn, gyda llawer ohonynt â barn amrywiol a chymhleth ynglŷn ag argaeledd y math hwn o gynnwys. Yn gyffredinol, os nad oedd cynnwys yn peri

tramgwydd amlwg iddynt, roedd y cyfranogwyr yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i'w gyrchu. Ond, os oedd yn cynnwys iaith neu themâu a oedd yn amlwg yn wahaniaethol yn eu barn nhw, gallent fod yn llai parod i dderbyn y cynnwys. Roedd gan gyfranogwyr farn wahanol hefyd ynghylch sut dylid trin deunyddiau o'r archif, megis a ddylid cael rhybuddion gorfodol yn rhybuddio cynulleidfaoedd am gynnwys a allai fod yn wahaniaethol, neu a ddylai darparwyr orfod dileu neu olygu golygfeydd penodol er mwyn dileu cynnwys o'r fath.

**Roedd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn ymddiried mewn mesurau amddiffyn ar gyfer plant ifanc, ond roeddent yn cydnabod bod y mesurau yn llai effeithiol wrth i'r plant fynd yn hŷn.**

Er bod y cyfranogwyr yn ystyried mai rhieni a gofalwyr sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu eu plant, roeddent hefyd am i ddarparwyr gwasanaethau eu helpu i wneud hynny'n haws. Ystyriwyd bod curadu cynnwys ar broffiliau plant yn ofalus, ynghyd â darparu rhybuddion neu sgoriau oedran priodol, yn ffyrdd effeithiol o helpu rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau am addasrwydd cynnwys i'w plant ei weld. Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd y mesurau hyn wrth i blant fynd yn hŷn yn cael ei ystyried yn fwy cyfyngedig.

Wedi dweud hynny, ystyriwyd bod y rhyngrwyd yn ehangach yn llawer mwy peryglus i blant o bob oed, ac roedd rhieni'n teimlo bod mwy o siawns y byddai eu plant yn cael eu hamlygu i gynnwys eithafol yna. Ystyriwyd bod gweithgarwch plant ar y rhyngrwyd yn anoddach i'w fonitro a'i ddiogelu o'i gymharu â'u defnydd o wasanaethau fideo ar-alw neu deledu.

**Er bod cyfranogwyr yn ymwybodol bod rheoliadau'n bodoli ar gyfer teledu llinol, ac yn tybio bod y rhain yn berthnasol i BVoDs hefyd, roedd llawer ohonynt yn ansicr ynghylch rheoleiddio SVoDs.**

Nid oedd y cyfranogwyr o reidrwydd wedi clywed am y Cod Darlledu, ond ar ôl iddo gael ei egluro iddynt, roeddent yn gefnogol ar y cyfan ac yn meddwl ei fod yn gynhwysfawr. Gan fod cysylltiad agos rhwng BVoDs a darlledwyr penodol, roedd y cyfranogwyr yn credu y byddai'r rheolau hyn yn berthnasol iddyn nhw hefyd. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn disgwyl i reolau gwahanol fod yn berthnasol i SVoDs, a hynny oherwydd y gwahanol ddulliau amddiffyn maen nhw'n eu cynnig, ar ffaith bod angen talu am danysgrifiad i gael mynediad atyn nhw. Roedd rhai hefyd yn tybio y gallai SVoDs ddilyn rheolau gwahanol oherwydd eu natur ryngwladol.

Ar ôl cael gwybod sut roedd gwasanaethau fideo ar-alw yn cael eu rheoleiddio, roedd rhywfaint o syndod ynghylch pa mor amrywiol a chymhleth oedd y rheolau ar draws gwahanol wasanaethau a llwyfannau. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn poeni bod rhai gwasanaethau fideo ar-alw ar gael yn y DU nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom. Roedd hynny'n llai o syndod i eraill, am eu bod yn disgwyl y gwahaniaeth hwn ar sail eu profiad o wahanol lwyfannau.

Roedd amheuaeth ynghylch a fyddai rheoleiddio'n newid yn y dyfodol. Roedd rhai cyfranogwyr yn cwestiynu a fyddent am i'r rheoliadau newid, gan eu bod yn ofni y gallai gyfyngu ar eu rhyddid i ddewis. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn y dylai cynnwys a ddarperir yn y DU gydymffurfio â safonau'r DU. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr am weld un corff annibynnol yn y DU i gyflwyno cwyn iddo os oedd angen.